Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Glannau Gwaun
# Clive Road
# Abergwaun
# Sir Benfro
# SA65 9DB

# Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2019

# gan

# Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Glannau Gwaun

Lleolir Ysgol Glannau Gwaun yn nhref Abergwaun, yn awdurdod lleol Sir Benfro. Mae 291 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr. Mae dwy ffrwd yn yr ysgol sy'n darparu addysg naill ai trwy'r Gymraeg neu'r Saesneg. Mae gan yr ysgol bum dosbarth oed sengl a phedwar dosbarth oed cymysg rhwng y ddwy ffrwd. Mae un dosbarth meithrin yn yr ysgol, sydd yn derbyn disgyblion amser llawn a rhan-amser. Yn ogystal, mae gan yr ysgol ddwy ganolfan addysgol ychwanegol ar gyfer disgyblion ag amrywiaeth o anghenion penodol, sydd dan oruchwyliaeth Sir Benfro.

Dros dreigl tair blynedd, mae tua 25% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sydd yn fwy na'r ganran genedlaethol, sef 18%. Mae tua 3% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod 29% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn uwch na'r ganran genedlaethol o 21%.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Ionawr 2018 a'r dirprwy bennaeth i'w rôl ym mis Medi 2018. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf gan Estyn ym mis Gorffennaf 2012.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau cyfathrebu a darllen effeithiol ac maent yn cyflawni'n dda. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn ysgrifennu'n bwrpasol ac yn ymestynnol ar draws y cwricwlwm. Mae'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n dda yn erbyn eu targedau personol, sy'n cynnwys disgyblion yn y canolfannau addysgol ychwanegol.

Mae llawer o ddisgyblion yn caffael cysyniadau mathemateg cadarn a'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) llwyddiannus. Yn ogystal, mae'r rhan fwyaf yn ddysgwyr brwdfrydig, sy'n ymroi i brofiadau newydd yn hyderus.

Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn gofalu'n ddiwyd a chydwybodol am eu disgyblion. Maent yn cynnig arweiniad a chymorth gwerthfawr dros ben iddyn nhw a'u teuluoedd. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.

Mae gweledigaeth y pennaeth ar gyfer datblygu'r ysgol yn uchelgeisiol. Mae hi wedi sefydlu gweithdrefnau priodol mewn amser byr, sydd yn dechrau effeithio'n gadarnhaol ar ddarpariaeth yr ysgol, yn enwedig lles y disgyblion.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwella** |

## Argymhellion

A1 Gwreiddio'r strategaethau arweinyddiaeth newydd i gysoni'r ddarpariaeth er mwyn codi safonau disgyblion

A2 Meithrin rôl y llywodraethwyr i herio'r ysgol yn well fel cyfeillion beirniadol

A3 Gwella medrau ysgrifennu annibynnol disgyblion ar draws y cwricwlwm

A4 Sicrhau bod disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm yn effeithiol

A5 Sicrhau bod addysgu a chynllunio'r athrawon yn herio pob disgybl i gyflawni hyd eithaf eu gallu

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Digonol ac angen gwella**

Ychydig iawn o'r disgyblion sy'n cychwyn yr ysgol â medrau cyfathrebu Cymraeg sy'n cyfateb i'r safon a ddisgwylir am eu hoed. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer yn y ffrwd Gymraeg yn caffael medrau cyfathrebu Cymraeg effeithiol ac yn cyflawni'n dda. Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae llawer yn dysgu i gyfathrebu yn y Saesneg yn huawdl, ac mae'r lleiafrif o ddisgyblion yn datblygu medrau rhifedd effeithiol ar draws yr ysgol. Mae rhan fwyaf y disgyblion sydd ag anghenion dysgu, sy'n cynnwys y disgyblion yn y canolfannau addysgol ychwanegol, yn cyflawni'n gadarn yn erbyn eu targedau personol.

Mae llawer o ddisgyblion yn cyflawni'n llwyddiannus wrth ddatblygu eu medrau llafar a gwrando. Maent yn hyderus ar lafar ac yn deall bod gwrando'n astud ar eraill yn cyfrannu'n fuddiol i'w dysgu. O ganlyniad, mae llawer yn sgwrsio'n hyderus am eu gwaith a'u profiadau. Er enghraifft, mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn esbonio'n glir pam maent yn dewis dillad penodol i bortreadu môr-leidr wrth chwarae rôl. Mae medrau llafar llawer o'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn dda, yn enwedig wrth iddynt esbonio'n helaeth am gymeriadau enwog oes y Tuduriaid a hinsawdd yr anialwch Chihuahuan ym Mecsico. Yn ogystal, mae medrau llafar Cymraeg y disgyblion yn y ffrwd Saesneg yn datblygu'n briodol.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen cadarn. Yn y ddwy ffrwd, mae llawer o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn darllen ystod dda o destunau yn yn aeddfed. Maent yn trafod cynnwys eu llyfrau'n ddeallus ac yn adeiladu geiriau anghyfarwydd yn bwrpasol trwy ddefnyddio strategaethau ffonig addas. Maent yn adnabod nodweddion cymeriadau cyfarwydd fel y tri mochyn bach yn dda, ac yn nodi'n frwdfrydig mai'r blaidd yw'r dihiryn yn y stori. Mae llawer yng nghyfnod allweddol 2 yn darllen yn ystyrlon ac yn ynganu'n glir yn y ddwy ffrwd. Maent yn mwynhau llyfrau ffuglen a ffeithiol, ac yn ymarfer eu medrau darllen uwch i ddarganfod gwybodaeth o wahanol ffynonellau yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn ymchwilio'n gydwybodol ar y we, gan gynnwys profiadau faciwî yn yr Ail Ryfel Byd.

Mae'r mwyafrif o ddisgyblion, ar draws yr ysgol, yn ysgrifennu'n bwrpasol at wahanol ddibenion mewn ystod o gyd-destunau. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r mwyafrif yn ysgrifennu darnau diddorol a chywir. Mae enghreifftiau effeithiol yn cynnwys cyfarwyddiadau ar sut i blannu hadau, a chofnod o ffeithiau am anifeiliaid gwahanol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r mwyafrif yn ysgrifennu'n ystyrlon i ystod eang o bwrpasau. Er enghraifft, maent yn disgrifio erchylltra'r ffosydd yn y Rhyfel Byd Cyntaf yn feddylgar trwy lythyr, ac yn cofnodi arbrawf ar y newidiadau yng nghuriad y galon ar ôl cadw'n heini. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, mae safonau ysgrifennu disgyblion yn anghyson ac anwadal rhwng ffrydiau a dosbarthiadau. Nid yw ysgrifennu ymestynnol lleiafrif ohonynt yn ddigon da ac maent yn or-ddibynnol ar oedolion i gwblhau tasgau.

Mae llawer o ddisgyblion yn deall cysyniadau mathemategol yn dda. Maent yn dilyn cyfarwyddiadau i ymestyn eu gwybodaeth yn effeithiol yn ystod gwersi. O ganlyniad, mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn mesur boncyff coed mewn centimetrau ac yn cyflwyno'n llwyddiannus mewn graff y gwahanol mathau o goed a dail sydd yn y

goedwig. Mae llawer yng nghyfnod allweddol 2 yn defnyddio strategaethau rhif, dadansoddi nodweddion siapiau a datrys fformiwlâu algebraidd syml yn gynyddol gywir. Maent yn cyflwyno eu canfyddiadau mewn amryw ffurf i gyflawni tasgau mathemategol yn fwriadus. Er enghraifft, maent yn diddwytho arwynebedd siapiau cyfansawdd a chreu graffiau llinell i gofnodi effaith ynysydd thermol ar dymheredd dŵr yn llwyddiannus. Fodd bynnag, lleiafrif o ddisgyblion ar draws yr ysgol sy'n dewis y dulliau mathemategol addas i gwblhau tasgau newydd yn annibynnol, heb arweiniad oedolyn. O ganlyniad, lleiafrif o ddisgyblion sy'n cymhwyso eu medrau rhifedd yn fwriadus ar draws y cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf yn datblygu medrau TGCh effeithiol. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio ystod o gymwysiadau i wella eu medrau darllen, rhif a'u medrau echddygol manwl, trwy ddefnyddio teganau electronig a rhaglenni addysgol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio ystod o feddalwedd ac offer TGCh yn effeithiol i ymestyn eu dealltwriaeth ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, maent yn defnyddio basau data a thaenlenni yn bwrpasol i gofnodi uchder ffrwydradau hylif yn ystod arbrofion. Yn ogystal, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio cyfrineiriau diogel yn bwrpasol i fynd i wefannau dysgu defnyddiol yn y dosbarth ac adref.

### Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae bron pob disgybl yn dangos balchder dros eu hysgol ac yn teimlo'n ddiogel o fewn y naws gynhwysol a theuluol sydd yn bodoli ynddi. Maent yn hapus i drafod unrhyw bryderon gydag aelodau staff, gan eu bod yn hyderus bydd y staff yn gwrando arnynt. Mae ymddygiad bron pob disgybl tu mewn a thu allan i'r dosbarth yn gyson dda. Maent yn gwrtais ac yn dangos parch tuag at eu cyfoedion, y staff ac ymwelwyr. Mae'r rhan fwyaf yn ofalgar o'i gilydd ac yn cydweithio a chyd-chwarae yn llwyddiannus.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion, ar draws yr ysgol, agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Maent yn gwrando'n astud ar gyfarwyddiadau'r athrawon ac yn canolbwyntio'n dda ar eu gwaith yn ystod gwersi. Maent yn ddysgwyr brwdfrydig sy'n ymroi i brofiadau newydd yn hyderus. Mae llawer o ddisgyblion yn barod iawn i drafod eu gwaith gyda'u cyfoedion ac mae eu cydweithio llwyddiannus yn nodwedd gadarn ymhob dosbarth. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn dangos parch tuag at gyfraniadau eraill ac yn ymateb yn gadarnhaol i'w syniadau. Mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n astud ar gyflwyniadau eraill ac yn newid o un gweithgaredd i'r llall yn hwylus yn eu gwersi.

Mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach, ac yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau ymarfer corff cyson. Er enghraifft, maent yn manteisio ar 'filltir y dydd' ac yn cynnal wythnos ffitrwydd, sydd yn arwain at well ddealltwriaeth gan ddisgyblion ar sut i gadw'n iach. Yn ogystal, mae disgyblion yr ysgol yn hyrwyddo'r defnydd o'r bar salad yn frwd ac yn cynnal parti ysgytlaeth iachus i wella meddylfryd eu cyfoedion tuag at wella'u diet. Yn ogystal, maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig yn y gweithgareddau sydd ar gael iddynt yn y clybiau allgyrsiol niferus.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn deall y peryglon all godi yn eu bywyd bob dydd a gwyddant ba gamau i'w cymryd pe bai angen lleihau'r risg. Er enghraifft, mae bron pob un, yn unol â'u hoed, yn deall pwysigrwydd eu diogelwch ar-lein, ac yn amlinellu'r peryglon all godi yn sgìl defnydd anghyfrifol o'r we.

Mae llawer o ddisgyblion yn cyfrannu'n fuddiol i'w dysgu. Maent yn cynnig syniadau i'w cynnwys yn y themâu tymhorol yn hyderus. Yn ogystal, maent yn manteisio ar gyfleoedd i ymweld â'r ardal leol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'u cynefin yn ddeallus.

Mae gan y rhan fwyaf ymwybyddiaeth gadarn o degwch a phwysigrwydd cyfle cyfartal. Maent yn oddefgar a sensitif i anghenion a dyheadau disgyblion eraill, fel ffoaduriaid a phobl sydd dan anfantais yn ein cymdeithas. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd cynaliadwyedd, a gallant egluro pwysigrwydd y fforestydd glaw i'r amgylchedd yn dda. Mae bron pob disgybl yn rhan o gynllunio gweithgareddau i godi arian tuag at elusennau lleol a chenedlaethol. Mae hyn yn cynyddu ymwybyddiaeth y disgyblion yn llwyddiannus am bwysigrwydd eu cyfraniadau unigol i greu cymdeithas ofalgar.

Mae bron pob disgybl yn gydwybodol ac yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif. Er enghraifft, mae gan yr ysgol nifer o gynghorau, fel y pwyllgor eco, y criw Cymraeg a'r grŵp menter. Maent yn trafod eu rolau arwain yn hyderus, gan roi rhesymau pwrpasol dros benderfynu ar ran eraill o fewn cymuned yr ysgol. Er enghraifft, yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi ategu at adnoddau ar fuarth yr ysgol. Yn ogystal, maent wedi datblygu llwybr penodol i wella medrau corfforol disgyblion, sy'n deillio o awgrymiadau'r cyngor ysgol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon yn y bore ac mae'r ganran gyfartalog o ran presenoldeb wedi gwella o ganlyniad i strategaethau newydd a llwyddiannus yr ysgol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwella**

Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn cydweithio'n dda i sicrhau gofal a chymorth cadarn i ddisgyblion, sy'n cael effaith lwyddiannus ar eu lles. Mae'r berthynas waith gynhaliol yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau yn meithrin parch a chwrteisi ymysg y disgyblion ac yn creu awyrgylch gynhyrchiol. Mae'r addysgu yn y canolfannau addysgol ychwanegol yn gadarn iawn.

Mae'r athrawon yn darparu ystod briodol o brofiadau dysgu gwerthfawr ar gyfer y disgyblion, sydd yn ennyn eu diddordeb yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r profiadau i gyfoethogi dysgu'r disgyblion yn bwrpasol. Er enghraifft, yn y cyfnod sylfaen, mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd da i raglennu crwydryn electronig i deithio o gwmpas map. Yn ogystal, ar draws yr ysgol, mae'r athrawon yn trefnu ymweliadau buddiol i ysgogi dysgu'r disgyblion, fel oriel leol a phorthladd y dref. Cefnogir profiadau dysgu'r disgyblion ymhellach trwy amrywiaeth eang o weithgareddau, fel dathlu gŵyl Shakespeare a rhannu mewn gweithdai theatrig. Yn ogystal, yng nghyfnod allweddol 2, maent yn cymharu eu hardal leol â Mecsico yn effeithiol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o ddiwylliant a Chymreictod eu milltir sgwâr a statws Cymru yn y byd.

Gwneir defnydd da o'r cymorthyddion ar draws yr ysgol. Maent yn cefnogi dysgu unigolion a grwpiau o ddisgyblion penodol yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn, yn enwedig yn y canolfannau addysgol ychwanegol.

Llwydda'r athrawon i wneud eu dosbarthiadau yn lleoedd ysgogol a difyr. Mae arddangosfeydd lliwgar yn cefnogi'r addysgu a'r dysgu yn effeithiol. Mae'r ysgol newydd fynd i'r afael â'r anghysondebau mewn cynllunio ar draws yr ysgol ac mae'r athrawon yn dechrau ymateb i'r cwricwlwm newydd i Gymru yn fwriadus. Mae cyfleoedd pwrpasol i'r disgyblion gyfrannu at eu dysgu eu hunain, fel trafod eu syniadau yn agored cyn cychwyn â'r themâu newydd. Serch hynny, nid yw'r cynllunio'n ddigon cadarn i sicrhau dilyniant a pharhad effeithiol yn nysgu'r disgyblion. Yn ogystal, nid oes digon o sylw tuag at herio grwpiau penodol o ddisgyblion i weithredu ar eu gorau.

Ar y cyfan, mae llawer o'r athrawon yn defnyddio dulliau addysgu cadarnhaol i wella medrau'r disgyblion. Maent yn holi'n gyson i ddatblygu ymatebion a syniadau'r disgyblion ymhellach. Mewn llawer o ddosbarthiadau, nid yw'r holi'n herio disgyblion i ymateb yn annibynnol i'r tasgau a osodwyd iddynt. Er bod cynnwys y gwersi'n ennyn diddordeb llawer o ddisgyblion yn briodol, mae'r athrawon yn dueddol i ymyrryd yn ormodol yn nysgu'r disgyblion. O ganlyniad, mae eu harferion yn cyfyngu ar allu'r disgyblion i feddwl drostynt eu hunain ac i gyflawni i safon ddigon uchel.

Pan mae'r athrawon, yn y mwyafrif o ddosbarthiadau, yn cynnig cyfleoedd effeithiol, mae llawer o ddisgyblion yn cyflawni medrau cyfathrebu a darllen da ac yn gwneud cynnydd pwrpasol. O ganlyniad i ddarpariaeth gadarn ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn llwyddo i arddangos a defnyddio medrau TGCh aeddfed. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i'r disgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm i'r un safon dda a welir yn y gwersi mathemateg. O ganlyniad, nid yw'r disgyblion yn gwneud cystal cynnydd.

Ar draws yr ysgol, mae'r athrawon yn rhannu amcanion dysgu a meini prawf llwyddiant yn rheolaidd gyda'r disgyblion, a chynnig cyfleoedd iddynt asesu eu gwaith eu hunain a'u cyfoedion. Yn aml, mae gormod o bwyslais ar weinyddu'r cofnodion hyn, sy'n llesteirio'r cyfleoedd i ddisgyblion ddechrau ar eu dysgu'n brydlon.

Mae athrawon yn cynnig adborth adeiladol i'r disgyblion er mwyn iddynt ddeall sut i wella eu gwaith, yn enwedig ar lafar. Maent yn defnyddio gwybodaeth o asesiadau i gynllunio camau nesaf dysgu'r disgyblion yn briodol. Fodd bynnag, nid yw'r asesiadau dyddiol yn gymorth defnyddiol i ddisgyblion adnabod y camau nesaf yn eu dysgu. O ganlyniad, nid yw'r tasgau dilynol yn ddigon heriol i sicrhau bod disgyblion yn cyflawni cystal ag y gallant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r trefniadau i sicrhau gofal a lles y disgyblion yn gryfder yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar iawn â naws gynhwysol a hapus lle rhoddir pwyslais cadarn ar ddarparu cymorth pwrpasol i bob unigolyn. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn ymfalchïo yn eu hysgol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo dealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach yn effeithiol. Mae'r staff yn annog disgyblion i gadw'n heini yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn darparu gwersi ymarfer corff rheolaidd ac amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol, sy'n cynnwys clybiau criced, pêl-rwyd, rygbi a dawnsio.

Mae disgyblion yn cael cyfleoedd da i ymgymryd â rolau arweiniol ym mywyd a gwaith yr ysgol. Enghraifft effeithiol yw'r gwaith mae'r 'bydis' yn gwneud i gefnogi eu cyfoedion ar y buarth. Maent yn ymddangos mewn siacedi fflworoleuol ac yn annog a chefnogi disgyblion i gyd-chwarae'n dda. Mae hyn yn helpu i gynnal ethos cynhwysfawr, sydd yn effeithio'n gadarnhaol ar ymddygiad disgyblion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r medrau creadigol yn gadarn iawn. Gwneir defnydd gwerthfawr o weithgareddau celfyddydol i ehangu profiadau diwylliannol y disgyblion yn effeithiol. Er enghraifft, caiff disgyblion gyfleoedd bwriadus i efelychu gwaith arlunwyr, gwrando a gwerthuso ar ddarnau o gerddoriaeth a gwahodd perfformwyr i'r ysgol. Mae'r profiadau hyn yn datblygu medrau creadigol a mynegiannol y disgyblion yn ddeallus a gwella'u hunanhyder a'u cymhelliant i gydweithio yn bwrpasol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r staff yn annog y disgyblion i ddatblygu'n ddinasyddion cyfrifol yn dda, sy'n barod i helpu eraill. Mae eu gwaith o fewn y gymuned yn cyfrannu'n effeithiol at hyn, fel gofalu am ardd gymunedol a gwerthu cynnyrch y grŵp menter yn y farchnad leol.

Caiff y disgyblion gyfleoedd buddiol i ddysgu am hanes a diwylliant Cymru, fel astudio hanes y Tuduriaid ac ymweld a chastell Penfro. Maent yn darllen chwedlau traddodiadol Cymreig ac yn cael cyfleoedd llwyddiannus i ganu mewn cyngherddau yn yr ysgol a'r gymuned leol. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at fagu hunanhyder llawer o ddisgyblion, yn ogystal â'u hymwybyddiaeth o'u hetifeddiaeth Gymreig.

Mae trefniadau olrhain cynnydd disgyblion yn drylwyr. Gwneir defnydd effeithiol o'r canfyddiadau i dargedu anghenion dysgu ychwanegol unigolion yn fwriadus. Mae'r ddarpariaeth i ddisgyblion sydd ag anghenion ychwanegol, sy'n cynnwys y canolfannau addysgol ychwanegol, yn llwyddiannus. Mae'r ddarpariaeth yn cael effaith gadarnhaol ar gynnydd disgyblion. Mae gan pob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynllun addysg unigol effeithiol. Maent yn cynnwys gwybodaeth berthnasol a thargedau buddiol i symud disgyblion ymlaen yn eu dysgu'n dda. Caiff y cynlluniau eu hadolygu'n rheolaidd gyda'r disgyblion, yr athrawon a'r rhieni. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn. Mae hyn yn cynnwys cyflawniad cadarn y disgyblion yn y canolfannau addysgol ychwanegol, sy'n elwa'n fawr o weithgareddau difyr. Mae'r ddarpariaeth effeithiol yn ennyn a chynnal diddordeb y disgyblion yn gelfydd iawn, fel ymchwilio i fywydau anifeiliaid y fferm.

Mae perthynas gadarn yn bodoli rhwng y rhieni a'r ysgol. Mae'r polisi drws agored yn sicrhau bod cyfathrebu effeithiol rhwng athrawon a rhieni. Defnyddir cyfryngau cymdeithasol yn llwyddiannus i roi gwybod am y digwyddiadau allweddol. O ganlyniad, mae'r rhieni'n gwbl ymwybodol o weithgareddau'r ysgol. Cynigir cyfleoedd buddiol i rieni ymweld â'r ysgol i edrych ar lyfrau eu plant. Mae hyn yn cryfhau eu dealltwriaeth o beth maent yn dysgu yn yr ysgol ac mae'n ymestyn eu gallu'n dda i gefnogi eu plant adref.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus ag asiantaethau allanol fel y gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu. Mae hyn yn effeithio'n gadarnhaol ar allu'r disgyblion i gadw'n ddiogel. Er enghraifft, maent yn deall bod dyletswydd arnynt i leihau unrhyw

risg yn eu bywydau, fel cadw'n ddiogel wrth groesi'r ffordd a'r peryglon sy'n bodoli ar-lein. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwella**

Mae gweledigaeth y pennaeth ar gyfer datblygu'r ysgol yn uchelgeisiol. Mewn cyfnod byr, mae'r pennaeth a'r uwch dîm rheoli wedi mireinio'r gweithdrefnau rheolaethol i adlewyrchu gofynion cyfredol yr ysgol yn briodol. Maent wedi llwyddo i greu ethos o gydweithio effeithiol ymhlith y staff ac mae eu harweinyddiaeth yn dechrau creu gwelliannau cadarnhaol. Mae ganddynt weledigaeth gadarn, sy'n seiliedig ar greu ysgol ofalgar lle mae lles disgyblion yn ganolog i'w gwaith. Maent yn rhannu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus gyda'r staff, y llywodraethwyr a'r rhieni.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r pennaeth a'r uwch dîm rheoli wedi gosod nifer o strategaethau gwerthfawr ar waith, sy'n dechrau gwella agweddau o'r ddarpariaeth a safonau'r disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r newidiadau hyn wedi cael amser i wreiddio'n llwyddiannus i gysoni'r addysgu a'r cynllunio ar draws yr ysgol, i wella holl fedrau'r disgyblion.

Ar y cyfan, mae gweithdrefnau hunanwerthuso'r ysgol yn briodol. Mae cyswllt addas rhwng canfyddiadau'r gweithdrefnau hunanwerthuso a blaenoriaethau'r cynllun datblygu. Mae'r arweinwyr yn mesur eu cynnydd dros amser yn erbyn y blaenoriaethau yn foddhaol i adnabod agweddau sy'n llwyddo neu angen sylw pellach. Fodd bynnag, er bod gan yr ysgol amserlen fonitro benodol, hyd yn hyn, nid yw'r gweithdrefnau'n arwain at sicrhau cysondeb yn ansawdd y ddarpariaeth ar draws yr ysgol. Nid yw'r arweinwyr yn monitro'r argymhellion dilynol o'r adroddiadau craffu yn drwyadl. Er enghraifft, nid ydynt wedi llwyddo i gysoni'r cynllunio ar draws yr ysgol, ac nid yw'r adborth i athrawon yn eu dwyn i gyfrif am effaith eu gwaith yn ddigon trylwyr.

Mae gan y llywodraethwyr wybodaeth briodol am berfformiad yr ysgol. Maent yn deall targedau'r ysgol yn dda ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol yn effeithiol. Maent yn sicrhau bod yr ysgol wedi ei staffio'n synhwyrol, sy'n cynnwys cymorthyddion i gefnogi'r disgyblion ar lawr y dosbarth. Fodd bynnag, nid yw'r llywodraethwyr yn herio'n bwrpasol fel cyfeillion beirniadol nac yn dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn ddigon cadarn. Er eu bod yn ymweld â'r dosbarthiadau yn achlysurol, yn craffu ar waith ac yn cynnal cyfarfodydd gydag arweinwyr, nid ydynt yn mesur effaith y ddarpariaeth ar safonau'r disgyblion yn ddigon pwrpasol.

Mae'r arweinwyr yn ymateb yn dda i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, fel cyflwyno strategaethau i ddatblygu'r fframwaith cymhwysedd digidol a'r siarter iaith Gymraeg. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau TGCh a'r ethos Gymreig.

Yn ddiweddar, mae'r gweithdrefnau newydd i ddatblygu staff yn cysylltu'n effeithiol â'u rheoli perfformiad. Maent yn dechrau effeithio'n dda ar fedrau ac arbenigedd staff. Er enghraifft, mae'r staff yn targedu effeithiolrwydd ymyraethau cynnar ar gynnydd disgyblion a mewnbwn disgyblion i'w dysgu yn fwriadus. Maent newydd ddechrau rhannu eu harbenigedd gyda'u cydweithwyr yn well, ac erbyn hyn, mae'r hyfforddiant yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau'r disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r arweinwyr yn defnyddio'r trefniadau hyn yn ddigon trylwyr i ddwyn staff i gyfrif am berfformiad grwpiau penodol o ddisgyblion.

Mae'r arweinwyr yn gwneud defnydd pwrpasol o'r staff a'r adeilad.  Mae tir yr ysgol yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol.  Er enghraifft, mae'r adnoddau yn ardal allanol y cyfnod sylfaen yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion yn llwyddiannus i ddatblygu eu medrau ymhellach.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y gyllideb a'r grantiau ychwanegol yn cael eu defnyddio'n dda i gyfoethogi'r cwricwlwm.  Enghraifft lwyddiannus yw'r defnydd bwriadus a wneir o warged yr ysgol i gyflogi staff ychwanegol i gefnogi yn y dosbarthiadau.  Mae'r ysgol yn monitro hyn yn fanwl, fel canolbwyntio'n dda ar effaith ymyraethau ar safonau'r disgyblion.  Gwneir defnydd synhwyrol o'r grant datblygu disgyblion i wella lles disgyblion sy'n gymwys i'w dderbyn, trwy glybiau allgyrsiol a theithiau addysgol.  O ganlyniad, mae'r gwariant yn cysylltu'n fwriadus â blaenoriaethau'r cynllun datblygu.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/09/2019